

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Deintyddfa Broadlands, Broadlands,
Pen-y-bont ar Ogwr

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ionawr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ebrill 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Broadlands, Broadlands, Pen-y-bont ar Ogwr ar 24 Ionawr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 39 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol.

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i drin eu cleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom fod y staff yn ymddwyn mewn ffordd gwrtais tuag at y cleifion wyneb yn wyneb ac ar y ffôn.

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrech i gynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar yr un diwrnod, a dywedodd y cleifion ei bod hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan fydd angen un arnynt.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis a dywedodd y cleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd pob un o'r 39 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'
- Gwybodaeth dda ar gael i gleifion a oedd yn cynnwys gofal iechyd y geg
- Ardaloedd aros i gleifion glân a chyfforddus, gyda sgriniau arddangos gwybodaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol yn lân ac yn daclus ac wedi'i addurno i safon dda. Mae angen atgyweirio plaster rhai o'r walïau mewnol yn dilyn gwaith adferol diweddar ar achos o ymsuddiant.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cydymffurfio'n dda â'r rhagofalon diogelwch tân ar y cyfan, ond nid oedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelwch tân yn y 12 mis diwethaf. Ymdriniwyd â hyn yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Roedd y cofnodion deintyddol yn fanwl ac yn hawdd eu dilyn, gyda rhai mân feysydd i'w gwella.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelsom nad oedd y ddyfais gofnodi ddigidol ar un o'r awtoclafau yn gweithio'n iawn
- Nid oedd cyffuriau brys ar gael yn y dosau cywir i gleifion o bob oedran
- Roedd y dyddiad defnyddio ar rywfaent o'r cyfarpar brys wedi mynd heibio neu roeddent ar goll.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen sicrhau bod iechyd galwedigaethol preifat ar gael i aelodau o'r staff
- Mae angen i'r ffeil diogelu rhag ymbelydredd adlewyrchu polisi y practis yn llawn
- Defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd wedi'u cynllunio'r gyson drwy'r practis
- Droriau glân a threfnus gyda'r offer wedi'u pacio a'u dyddio
- Ystafell ddihalogi lân gyda llif gwaith da
- Mae'r hysbysfwrdd diogelu yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael yn rhwydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn weladwy, a gwelsom linellau adrodd clir ar gyfer y staff a phractis a oedd yn cael ei redeg yn dda. Gwelsom fod y staff yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu rolau ac roedd tystiolaeth o arfarniadau rheolaidd.

Roedd proses sefydlu ar waith gyda rhestrau gwirio a oedd yn cynnwys sesiynau goruchwylio gyda nyrs ddeintyddol gymwys. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff a rhwymedigaethau proffesiynol yn dda iawn.

Gwelsom dystiolaeth o broses gwyno addas yn unol â pholisi'r practis. Fodd bynnag, nid oedd dyddiadau wedi'u cynnwys ar gyfer rhai cofnodion.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roedd y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rydym yn argymhell y dylai'r practis weithredu cofrestr polisiâu
- Mae angen i'r practis baratoi a gweithredu polisi gwella ansawdd
- Dylid cynnal archwiliad rhagnodi gwrthfotigau ac archwiliad rhoi'r gorau i smygu cyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amrywiaeth dda o hyfforddiant i'r staff a chydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol
- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu wrth eu gwaith
- Ymateb yn gadarnhaol i ddatrys materion a godwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 39 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Practis deintyddol hyfryd.”

“Mae'n siomedig bod y practis wedi gorfod mynd yn breifat ar ôl ei chael hi'n anodd ymdopi â model toredig y GIG am gymaint o flynyddoedd. Mae'n bractis ardderchog ac rydym yn teithio awr a hanner bob ffordd i gael triniaeth.”

“Practis rhagorol. Rwyf wedi bod yn mynychu'r practis ers bron i 20 mlynedd, ers iddo agor gyntaf.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Dywedwyd wrthym y byddai'r cleifion yn cael cyngor hybu iechyd wrth gael eu gweld gan y deintyddion neu weithwyr deintyddol proffesiynol eraill a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom lawer o wybodaeth i gleifion ym mhob rhan o'r practis, gan gynnwys gwybodaeth am ganser y geg a chanllawiau rhoi'r gorau i smygu. Mae sgriniau digidol yn ardaloedd aros y practis i ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n rhedeg yn barhaus. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwybodaeth am gostau na'r broses gwyno yn cael ei harddangos mewn ardal lle y gallai'r cleifion ei gweld yn rhwydd. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis, a unionodd hyn yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno hefyd fod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Ni welsom unrhyw arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Roedd enwau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis i'w gweld yn glir. Fodd bynnag, nid oedd manylion y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol eraill na'r rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys. Gwnaethom godi'r hepgoriad hwn gyda rheolwr y practis, a unionodd y mater yn ystod yr arolygiad.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn ymdrin â chleifion mewn modd cyfeillgar a pharchus.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld y cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelsom hefyd fod bleinds ar y ffenestri yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd ychwanegol.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (38/39) yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Roedd desg y dderbynfa wrth ymyl yr ystafell aros i gleifion ar y llawr gwaelod. Roedd ardal aros arall wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf, y tu allan i'r deintyddfeydd. Roedd staff y dderbynfa yn gwybod bod angen iddynt gynnal cyfrinachedd y cleifion wrth ddelio â nhw, gan gynnwys wrth gynnal sgysiau dros y ffôn. Dywedwyd wrthym y byddai deintyddfa segur yn cael ei defnyddio ar gyfer trafodaethau cyfrinachol neu sensitif, ac y byddai galwadau ffôn preifat yn cael eu trosglwyddo i'r swyddfa ar y llawr cyntaf.

Roedd egwyddorion ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob ymatebwr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau/manteision a oedd yn gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn (37/39) wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y gost wedi cael ei hamlygu iddynt cyn y driniaeth, a dywedodd pob ymatebydd a atebodd y cwestiynau (36/39) fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gweler isod rai o'r sylwadau a gafwyd am ofal y cleifion:

“Cwrtais iawn a charedig. Arbenigedd o'r radd flaenaf, gwnaethant i mi deimlo'n gyfforddus ac rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus i gael unrhyw driniaeth yn y dyfodol.”

“Derbynfa gwrtais a charedig. Deintydd proffesiynol, llawn gwybodaeth a llawen sy'n barod i helpu ac a gwblhaodd fy nhriniaeth o'r dechrau i'r diwedd. Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus iawn bob amser.”

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym y byddai staff y dderbynfa neu'r nyrsys deintyddol yn rhoi gwybod i gleifion pe bai oedi cyn iddynt gael eu gweld yn ystod amser eu hapwyntiad.

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Dywedwyd wrthym fod slotiau gwag yn cael eu cadw ar amserlen apwyntiadau pob deintydd er mwyn sicrhau bod apwyntiadau ar gyfer gofal deintyddol brys ar gael. Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio system brysbennu i flaenoriaethu cleifion ac yn gwneud pob ymdrech i drin achosion brys ar yr un diwrnod.

Dywedwyd wrthym fod cleifion fel arfer yn aros oddeutu wythnos neu bythefnos rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth yn dibynnu ar ddifrifoldeb y mater ac argaeledd y deintydd.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio slotiau apwyntiadau cynnar ar gyfer plant ysgol a'i fod yn agor bob yn ail fore Sadwrn er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion yn gallu cael triniaeth ar adeg sy'n addas iddynt.

Roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhif ffôn cyswllt i'w ddefnyddio gan gleifion pe bai angen gofal a thriniaeth brys arnynt y tu allan i oriau i'w weld yn glir hefyd.

Dywedodd pob un a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Roedd y rhan fwyaf

o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael canllawiau digonol ar yr hyn y dylent ei wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu argyfwng, ond roedd dau ymatebydd yn anghytuno.

Teg

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Gwelsom fod polisiâu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac aflonyddu a bwlio ar waith yn y practis a bod y cleifion wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar y pynciau hyn.

Dywedodd y rhan fwyaf (37/39) o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Gwnaeth dau ymatebydd hepgor y cwestiwn hwn.

Gwelsom fod mynediad gwastad i'r practis o'r stryd a bod tair deintyddfa a thoiled hygyrch ar y llawr gwaelod er mwyn sicrhau bod gan gleifion â phroblemau symudedd fynediad at driniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (36/39) a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym eu bod o'r farn bod yr adeilad yn hygyrch, ac roedd un o'r ymatebwyr o'r farn mai dim ond rhannol hygyrch yw'r adeilad. Gwnaeth dau ymatebydd hepgor y cwestiwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr ystafelloedd trin a oedd wedi'u lleoli ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y practis yn olau ac wedi'u hawyru'n dda. Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd wedi cael ei addurno a'i ddodrefnu i safon dda ar y tu mewn, ond gwelsom dystiolaeth mewn rhai o'r ystafelloedd bod gwaith adferol diweddar wedi'i gwblhau mewn perthynas â phroblem ymsuddiant. Dywedwyd wrthym fod y practis mewn trafodaethau â'r landlord ynghylch ailaddurno'r waliau yr effeithiwyd arnynt yn yr ystafelloedd hyn. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi cynnal a chadw'r adeilad ar waith. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a luniodd bolisi cynnal a chadw ar gyfer yr adeiladau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn os na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau o ganlyniad i ddigwyddiad brys. Roedd manylion cyswllt y tîm ymateb i argyfyngau dynodedig a rhestr o rifau cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ar hysbysfwrdd y swyddfa. Gwelsom fod gan y practis gytundeb cymorth gyda phractis gerllaw fel rhan o'r mesurau wrth gefn.

Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon. Gwelsom fod cyfleusterau ar gael i'r staff newid mewn preifatrwydd.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld.

Nodwyd gennym fod yr asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod gwiriadau wythnosol o'r cyfarpar diogelwch tân ac ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi. Gwelsom fod yr allanfeydd tân yn glir heb ddim yn eu rhwystro a bod arwyddion gwagio'r adeilad yn cael eu harddangos drwy'r safle. Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniant cynnal a chadw'r cyfarpar tân nad yw ar gytundeb gyda darparwr diogelwch tân lleol a nodwyd bod pob un o'r diffoddwyr tân wedi cael ei wasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf yn unol â chyngor darparwr diogelwch tân y practis, ac mai dim ond ambell un o'r staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethom sôn bod AGIC yn argymhell y dylai practisau sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelwch tân yn flynyddol. Cynigiwyd yr hyfforddiant hwn i bob

aelod o'r staff, a chawsom gadarnhad bod pob un ohonynt wedi ei gwblhau yn fuan wedi'r arolygiad.

Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith i gefnogi arferion glanhau effeithiol.

Gwelsom fod yr ystafell aros a'r deintyddfeydd yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff. Gwelsom fod y practis yn defnyddio gwasanaeth iechyd galwedigaethol y GIG ar hyn o bryd er mwyn cael cymorth i ymdrin ag anafiadau offer miniog. Fodd bynnag, gan fod y practis wedi newid i bractis preifat yn unig, argymhellir y dylid cael gwasanaeth iechyd galwedigaethol preifat ar gyfer yr aelodau o staff.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i gael gwasanaeth iechyd galwedigaethol preifat ar waith ar gyfer yr aelodau o staff.

Roedd ystafell ddihalogi benodol gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dyfais sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi i'w gau'n awtomatig, gan olygu bod y drws yn parhau ar agor ar adegau amrywiol yn ystod ein harolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod drws yr ystafell ddihalogi yn parhau ar gau a rhoi manylion i AGIC am y ffordd y gwneir hyn.

Cafodd y trefniadau ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro eu disgrifio a'u dangos. Gwelsom fod y cofnodlyfrau wedi'u cwblhau i ddangos bod gwiriadau priodol o'r cyfarpar dihalogi wedi'u cynnal. Gwelsom fod dau awtoclaf yn cael eu defnyddio a bod y ddau wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ddyfais gofnodi ddigidol ar un o'r awtoclafau yn gweithio'n iawn. Nododd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cael gwybod am y mater hwn a'i fod wrthi'n cael ei ddatrys.

Aethpwyd i'r afael â'n pryder ynglŷn â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod y practis yn defnyddio archwiliad hunanasesu rheoli heintiau ar hyn o bryd, yn unol â'r canllawiau yn Lloegr. Nid oedd unrhyw archwiliad atal a rheoli heintiau, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, ar gael ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom fod y gwastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Roedd asesiad risg COSHH addas ar waith ar gyfer pob sylwedd peryglus i iechyd.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Fodd bynnag, roedd y polisi yn cynnwys cyfeiriadau at y GIG o hyd er bod y practis bellach ond yn darparu triniaeth i gleifion preifat yn unig. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis, a unionodd hyn yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu trin a'u storio'n ddiogel a bod proses addas ar waith ar gyfer cael gwared â chyffuriau brys yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Gwelsom fod unrhyw feddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Cawsom wybod y byddai digwyddiadau niweidiol mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu cofnodi gan staff y practis gan ddefnyddio'r cynllun Cerdyn Melyn.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion wneud cais amdano.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis. Roedd system ar waith ar gyfer gwirio stociau a nodi pryd y byddai angen cael meddyginiaethau newydd. Gwelsom gofnodion hefyd fod

gwiriadau wedi'u cwblhau, a'u bod yn cadarnhau bod pob meddyginiaeth o fewn ei dyddiad defnyddio. Er bod Midazolam ar gael fel rhan o'r pecyn cyffuriau brys, gwelsom nad oedd dosau cywir ohono ar gael i gleifion o bob oedran. Gwelsom hefyd fod y dyddiad defnyddio ar rywfaint o'r bagiau hunanchwyddo, llwybrau anadlu a masgiau wyneb clir sy'n rhan o'r cyfarpar brys wedi mynd heibio neu ar goll. Codwyd y materion hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a archebodd gyfarpar newydd yn ystod yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y ddau fater o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau rheolaidd a gynhelir o'r cyfarpar brys gofynnol yn ddigon effeithiol i sicrhau bod meddyginiaethau a chyfarpar ar gael bob amser ac nad yw'r dyddiad wedi mynd heibio arnynt.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff a oedd yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â diogelu ac roedd manylion cyswllt perthnasol ar gyfer timau diogelu lleol ar gael i'r staff pe bai pryder. Gwelsom fod gan y practis ardaloedd gwag ar waliau dynodedig ar gyfer materion diogelu yn y swyddfa a oedd yn cynnwys siart lif a rhestr o enwau cyswllt ar gyfer timau diogelu lleol a oedd yn golygu bod help a chyngor ar gael i'r staff pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac roeddent yn wybodus am ddiogelu ac roedd uwch-aelodau o'r staff wedi lawrlwytho ap Diogelu Cymru Gyfan i'w ffonau er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arweiniad diweddaraf. Roedd gan y practis arweinydd diogelu ar waith.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaeth a gofal deintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Gwelsom fod dogfennaeth, gan gynnwys asesiad risg ymbelydredd, ar waith i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd wedi'i chwblhau'n llawn, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer gofalwyr a chysurwyr cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffeil diogelu rhag ymbelydredd ei chwblhau i adlewyrchu polisi y practis yn llawn.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod gwaith cynnal a chadw gofynnol wedi'i gynnal ar y cyfarpar. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiadau ar brofion rheolaidd bob tair blynedd ar gyfer pedwar peiriant pelydr-X ar gael oherwydd dyddiad a oedd wedi mynd heibio ers mis Hydref 2023. Er bod y profion eu hunain wedi'u cynnal, mae ôl-groniad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn golygu bod oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad. Derbyniodd y practis yr adroddiadau wedi'u cwblhau ac fe'u hanfonwyd at AGIG yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system addas ar waith i sicrhau y caiff profion rheolaidd eu cynnal ar y cyfarpar pelydr-X mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd dyddiadau'r adroddiadau ar brofion yn mynd heibio yn y dyfodol.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff y practis a oedd yn ymwneud â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn rhoi cyngor ar lafar i'r cleifion mewn perthynas â risgiau a manteision pelydrau-X. Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd gofawyr yn cael bod yn yr ystafell drin pan oedd archwiliad pelydr-x yn cael ei gynnal.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi rhestrau gwirio cydnabyddedig ar waith er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Cofnodion Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol deg claf. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, megis enw a dyddiad geni'r claf. Roedd y rheswm dros fynychu a'r symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi hefyd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr hanes meddygol cychwynol wedi'i lofnodi na'i ddyddio gan y claf.

Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y cynlluniau triniaeth bob amser yn cael eu cofnodi pan fo angen, nad oedd cydsyniad y claf wedi'i gofnodi ym mhob ymweliad ac nad oedd cofnod i gadarnhau bod y staff wedi rhoi cyngor a'r roi'r gorau i smygu lle bo angen.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn eiddo i'r prif ddeintydd a chaiff ei weithredu gyda rheolwr practis sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff y practis, gan gynnwys negeseuon e-bost, trafodaethau wyneb yn wyneb a chyfarfodydd staff wedi'u trefnu. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfodydd a'u bod yn cael eu rhoi i aelodau o staff a oedd yn absennol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gwnaethom gadarnhau bod amrywiaeth o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Roedd y sampl o bolisiau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd llofnodion y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau ar ddogfen ar wahân nad oedd yn nodi pa lofnod oedd yn berthnasol i bolisi penodol.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr polisiau ar waith y gall aelodau o'r staff ei llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall pob polisi unigol.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roedd y ddwy ddogfen wedi cael eu hadolygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Yn ogystal â'r prif ddeintydd a rheolwr y practis, roedd tîm y practis yn cynnwys pum deintydd cyswllt, hylenydd/therapydd, wyth nyrs deintyddol a derbynyddion. Dywedwyd wrthym fod rheolwr y practis yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dywedwyd wrthym fod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod nyrsys asiantaeth yn

cael eu defnyddio yn achlysurol a bod eu cymwysterau proffesiynol a'u hyfforddiant gorfodol yn cael eu sgrinio cyn iddynt gael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y staff asiantaeth yn gymwys ac yn addas i weithio yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y cleifion bob amser yn parhau i gael gwasanaeth gan eu deintydd arferol er bod nyrsys dros dro yn cael eu defnyddio, er mwyn sicrhau parhad gofal.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael yn y practis i gynghori'r staff pe bai'r angen yn codi. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwr y practis a'r rheolwr cofrestredig yn agored ac yn hawdd mynd atynt.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio cyfredol a oedd yn nodi'r holl wybodaeth a'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael mewn perthynas â staff sy'n gweithio mewn practisau deintyddol.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys a thystiolaeth (lle y bo'n ofynnol) o yswiriant indemniad, tystiolaeth o gofrestrriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a thystiolaeth o frechiadau.

Dywedwyd wrthym fod proses sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff yn y practis, a oedd yn cynnwys sesiynau goruchwyllo gyda nyrs ddeintyddol gymwys. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o bolisiâu, llawlyfr y staff a gweithdrefnau tân y practis a'u bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedwyd wrthym fod cyfnod sefydlu o chwe mis ar waith a bod adolygiad yn cael ei gynnal ar ôl tri mis i drafod cynnydd yr aelod o staff.

Gwelsom fod y staff a gyflogir gan y practis yn cael arfarniadau gwaith blynyddol a'u bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Disgrifiwyd trefniadau amrywiol ar gyfer ceisio adborth gan gleifion, gan gynnwys tudalennau Facebook ac Instagram y practis, adolygiadau Google a holiaduron cleifion bob chwe mis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw flwch awgrymiadau ar gael i ddarparu ffordd hawdd o roi adborth yn ddiennw.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod blwch awgrymiadau er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth diennw yn y practis.

Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw adborth yn cael ei fonitro a'i asesu cyn ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod y practis wedi gwneud nifer o welliannau o

ganlyniad i hyn, gan gynnwys ychwanegu llinellau ffôn, archwiliadau am ddim i blant cleifion preifat a theledu yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf. Efallai yr hoffai'r practis ystyried rhoi dull ar waith er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth a gafwyd, fel arddangosfa 'Dywedoch chi, gwnaethom ni', neu ddull tebyg.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar waith er mwyn rheoli cwynion am y gofal deintyddol a ddarperir yn y practis. Roedd hon i'w gweld yn yr ardaloedd aros ac roedd yn cynnwys manylion y rheolwr cwynion ac yn nodi'r amserlen ymateb ddisgwyliedig. Roedd manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help a chymorth hefyd wedi'u cynnwys.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth ynglŷn â sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth, ond roedd un ymatebydd yn anghytuno â hyn.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio cofnod cwynion cleifion a oedd yn cael ei gadw mewn ffeil cwynion. Gwelsom fod y broses gwyno yn cael ei dogfennu'n gyflawn ond nid oedd pob cofnod wedi'i ddyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob dyddiad perthnasol ei gofnodi wrth gwblhau'r broses gwyno er mwyn sicrhau y caiff cwynion eu datrys mewn modd amserol yn unol â pholisi'r practis.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwnaethom edrych ar drefniadau'r practis ar gyfer asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cynnal Hunanasesiadau Sicrwydd Ansawdd ar ran y bwrdd iechyd yn y gorffennol, ond nid oedd polisi na phroses ar waith yno i lywodraethu'r gweithgareddau gwella ansawdd ers iddo ddod yn bractis preifat.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig baratoi polisi gwella ansawdd a'i roi ar waith.

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o'r gwastraff clinigol, archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau o gofnodion y cleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu ers sawl blwyddyn ac nad oedd copi o'r archwiliad hwn ar gael yno. At

hynny, gwelsom nad oedd archwiliad wedi cael ei gynnal mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau cyfredol mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu a rhoi tystiolaeth i AGIC eu bod wedi cael eu cwblhau.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd y ddyfais gofnodi ddirgryd ar un o'r awtoclafau yn gweithio'n iawn.	Ni allem gadarnhau bod y cyfarpar yn cyflawni'r broses ddihalogi yn gywir.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Mae'r practis eisoes wrthi'n datrys y mater.
Er bod Midazolam ar gael fel rhan o'r pecyn cyffuriau brys, gwelsom nad oedd dosau cywir ohono ar gael i gleifion o bob oedran.	Ni allem fod yn sicr y gellid defnyddio'r dosau cywir yn effeithiol mewn argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Rhai newydd yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig.
Gwelsom hefyd fod y dyddiad defnyddio ar rywfaent o'r bagiau hunanchwyddo, llwybrau anadlu a masgiau wyneb clir sy'n rhan o'r	Ni allem fod yn sicr y gellid sicrhau eu bod ar gael na'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol mewn argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith gyda'r uwch-aelodau o'r staff.	Rhai newydd yn cael eu harchebu gan y rheolwr cofrestredig.

cyfarpar brys wedi mynd heibio neu ar goll.			
--	--	--	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Broadlands

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Broadlands

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ionawr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom nad oedd gan y practis ddarpariaeth iechyd galwedigaethol preifat ar waith ar gyfer y staff.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i gael gwasanaeth iechyd galwedigaethol preifat ar waith ar gyfer yr aelodau o staff.	Rheoliad 8(1)(e) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Rydym yn parhau i chwilio am gwmni addas gan na all y cwmnïau y cysylltwyd â nhw ddarparu brechiadau/profion gwaed, dim ond gwasanaeth ffisiotherapi. Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cael pob brechiad cyfredol yn breifat gan GMP	Anna Broughton	Y gobaith yw erbyn diwedd mis Mawrth

<p>Gwelsom nad oedd dyfais sbring ar ddrws yr ystafell ddihalogi i'w gau'n awtomatig, gan olygu bod drws yr ystafell ar agor yn ystod ein harolygiad.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod drws yr ystafell ddihalogi yn parhau ar gau a rhoi manylion i AGIC am y ffordd y gwneir hyn.</p>	<p>Rheoliad 22(2)(b) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Mae'r sbring wedi cael ei osod</p>	<p>Jacqueline Jones</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>
<p>Gwelsom nad oedd unrhyw archwiliad atal a rheoli heintiau, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, ar gael ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05.</p>	<p>Rheoliad 13 (6)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Mae'r archwiliad wedi cael ei drefnu</p>	<p>Jacqueline Jones</p>	<p>Erbyn diwedd mis Mawrth 2024</p>
<p>Gwelsom nad oedd y dosau cywir o Midazolam ar gael i gleifion o bob oedran fel rhan o'r pecyn cyffuriau brys a bod y dyddiad defnyddio ar ryw faint o'r bagiau hunanchwyddo, llwybrau anadlu a masgiau wyneb clir sy'n rhan o'r cyfarpar</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau rheolaidd a gynhelir o'r cyfarpar brys gofynnol yn ddigon effeithiol i sicrhau bod meddyginiaethau a chyfarpar ar gael bob amser ac nad yw'r dyddiad wedi mynd heibio arnynt.</p>	<p>Rheoliad 13 (4)(a) a 31 (3)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p>	<p>Rydym wedi cael chwistrellau aml ddos o Midazolam</p> <p>Rydym wedi cael cyfarpar brys newydd yn lle'r rhai yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio ac mae bellach yn rhan o'r broses wirio</p>	<p>Anna Broughton</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>

brys wedi mynd heibio neu ar goll			wythnosol er mwyn sicrhau bod eitemau newydd ar gael cyn gynted â phosibl yn y dyfodol.		
Gwelsom nad oedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd wedi'i chwblhau'n llawn, gan gynnwys y gweithdrefnau ar gyfer gofalwyr a chysurwyr cleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffeil diogelu rhag ymbelydredd ei chwblhau i adlewyrchu polisi y practis yn llawn.	Rheoliad 6 ac Atodlen 2 - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Bydd y ffeiliau yn cael eu cwblhau gyda'r nyrs dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â rôl y goruchwylydd ymbelydredd gyda NEBDN fel ymarfer hyfforddiant	Anna Broughton Emma Griffiths	Erbyn diwedd mis Mawrth 2024
Gwelsom nad oedd yr adroddiadau ar brofion rheolaidd bob tair blynedd ar gyfer pedwar peiriant pelydr-X ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system addas ar waith i sicrhau y caiff profion rheolaidd eu cynnal ar y cyfarpar pelydr-X mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd dyddiadau'r adroddiadau ar brofion yn mynd heibio yn y dyfodol.	Rheoliad 15 (3)(b) - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 Rheoliad 8(1)(d) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Cyrhaeddodd pob un o'r adroddiadau yn fuan ar ôl yr arolygiad ac rydym wedi anfon copïau i AGIC. Rydym wedi nodi dyddiad yr adroddiadau ar gyfer y dyfodol ar y siart sydd ar y wal er mwyn osgoi unrhyw oedi y tro nesaf (roedd NRPB yn hwyr yn	Anna Broughton	Wedi'i gwblhau

			cysylltu â ni a chawsom ymddiheuriad)		
Gwelsom nad oedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dannedd anghywir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y defnyddir y rhestrau gwirio a argymhellir i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.	Rheoliad 13 (1)(a) a (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae'r rhestrau gwirio ym mhob deintyddfa wedi cael eu lamineiddio - cânt eu llenwi a'u sganio pan fydd pob claf yn cael tynnu dannedd	Anna Broughton	Wedi'i gwblhau
Gwelsom nad oedd yr hanes meddygol cychwynnol wedi cael ei lofnodi na'i ddyddio gan y cleifion, nad oedd y cynlluniau triniaeth bob amser yn cael eu cofnodi pan fo angen, nad oedd cydsyniad y claf wedi'i gofnodi ym mhob ymweliad ac nad oedd cofnod i gadarnhau bod y staff wedi rhoi cyngor a'r roi'r gorau i smygu lle bo angen.	Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.	Rheoliad 20(1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae'r dogfennau papur o hanes meddygol y cleifion bellach wedi cael eu cwblhau a'u llofnodi gan y cleifion a'u sganio ar eu cofnodion. Mae pob deintydd bellach yn gofyn i'r cleifion lofnodi pob dogfen sy'n amcangyfrifo costau pob triniaeth a chaiff cydsyniad y cleifion ei gofnodi yn y nodiadau yn ystod pob apwyntiad. Mae'r staff	Pob deintydd a gaiff ei arwain gan Anna Broughton	Wedi'i gwblhau

			bellach yn rhoi cyngor ar roi'r gorau i smygu a chaiff ei gofnodi.		
Gwelsom fod polisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau. Fodd bynnag, roedd llofnodion y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisiau ar ddogfen ar wahân nad oedd yn nodi pa lofnod oedd yn berthnasol i bolisi penodol.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr polisiau ar waith y gall aelodau o'r staff ei llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall pob polisi unigol.	Safon Ansawdd - Arweinyddiaeth Rheoliad 8 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae mynegai o'r polisiau wedi'i ychwanegu at ddechrau'r ffeil ar y cyd â'r llofnodion	Anna Broughton	Wedi'i gwblhau
Gwelsom nad oedd unrhyw flwch argrymiadau ar gael i ddarparu ffordd hawdd o roi adborth yn ddiennw.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig osod blwch awgrymiadau er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth diennw yn y practis.	Rheoliad 16(2)(c) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Mae blwch awgrymiadau wedi'i osod yn yr ardal aros	Jacqueline Jones	Wedi'i gwblhau
Gwelsom fod y broses gwyno yn cael ei dogfennu'n gyflawn ond	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff pob dyddiad perthnasol ei gofnodi wrth gwblhau'r	Rheoliad 21 (5) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Bydd pob cwyn yn cael ei dogfennu'n llawn a'i dyddio yn y dyfodol	Anna Broughton	Wedi'i gwblhau

nid oedd pob cofnod wedi'i ddyddio.	broses gwyno er mwyn sicrhau y caiff cwynion eu datrys mewn modd amserol yn unol â pholisi'r practis.				
Dywedwyd wrthym nad oedd polisi na phroses ar waith yn y practis i lywodraethu'r gweithgareddau gwella ansawdd ers dod yn bractis preifat.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig baratoi polisi gwella ansawdd a'i roi ar waith.	Rheoliad 16 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Rydym wedi cofrestru ar gyfer Denplan Excel, sy'n cynnwys arolygiadau rheolaidd o'r practis a monitro cydymffurfiaeth.	Anna Broughton	Parhaus dros y chwe mis nesaf
Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi cwblhau archwiliad rhoi'r gorau i smygu ers sawl blwyddyn ac nad oedd archwiliad mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau wedi'i gynnal.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliadau cyfredol mewn perthynas â rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu a rhoi tystiolaeth i AGIC eu bod wedi cael eu cwblhau.	Rheoliad 8 (n) a 16 (d)(ii) - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Rydym wedi trefnu i gynnal y ddau archwiliad ac wedi archebu a derbyn taflenni rhoi'r gorau i smygu	Anna Broughton	Erbyn diwedd mis Mehefin - bydd deintydd newydd yn dechrau ym mis Mai, felly byddwn yn dechrau cynnal yr archwiliadau yr adeg

					honno er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chynnwys
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Anna Broughton

Teitl swydd: Perchennog y Practis

Dyddiad: 13/3/2024